Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: MA/JJ/1826/22

Llŷr Gruffydd AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd, a Seilwaith
Senedd Cymru
SeneddClimate@senedd.wales

28 Mehefin 2022

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor am y bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022 erbyn 30 Mehefin 2022.

Rwyf wedi cael llythyr oddi wrth Victoria Prentis AS, y Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd yn gofyn inni gydsynio i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n gorgyffwrdd â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Gallai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau drwy arfer ein pwerau ein hunain. Bydd y Rheoliadau’n gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau’n cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Erthyglau 22(3) a 54(3) o Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ('y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol').

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau ar gyfer trefn amlder gwiriadau sy’n seiliedig ar risg ar gyfer Prydain Fawr, ac maent yn caniatáu addasu pa mor aml y cynhelir gwiriadau ar iechyd planhigion ar lwybrau masnach mewnforio penodol, gan ddibynnu ar lefel y risg i Brydain Fawr o ran iechyd planhigion. Bydd yr offeryn hwn yn gymwys yn yr union un ffordd i fewnforion o wledydd y tu allan i'r UE a nwyddau â blaenoriaeth uchel o aelod-wladwriaethau'r UE, y Swistir, a Liechtenstein. Y weithdrefn negyddol fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Offeryn Statudol (OS) hwn, a disgwylir iddo gael ei osod gerbron Senedd y DU ar 30 Mehefin 2022. Y dyddiad cychwyn ar ei gyfer fydd 22 Gorffennaf 2022.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ystyrir ei bod yn briodol y tro hwn i sylwedd y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru gan nad oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn.

Mae hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn gydlynol ac yn gyson a bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol ac na fyddai hynny'n ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change